POLISI CODI TÂL NEU BEIDIO CODI TÂL

YSGOL LLAN-Y-PWLL

Dyddiad wedi ei Gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol	28/4/2022
Dyddiad Adolygu	28/4/2022
Arwyddwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethol)	
Arwyddwyd (Pennaeth)	

Cyflwyniad

Ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn addysgol bydd ymweliadau addysgol yn cael eu trefnu a bydd perfformiadau addysgol yn ymweld ar ysgol i addysgu a difyrru'r plant.

Yn aml bydd ymweliadau neu berfformiadau o'r fath yn berthnasol i grŵp oedran arbennig gyda'r bwriad o atgyfnerthu thema neu bwnc o fewn y dosbarth. Mae ymweliadau addysgol yn ehangu'r cwricwlwm ac yn rhoddi ystyr a phwrpas i'w hastudiaethau a thrwy hynny symbylu eu diddordebau a thanio eu dychymyg. Mae ymweliadau addysgol o gymorth i annog a datblygu sgiliau cymdeithasol ac adeiladu hunan barch ymysg unigolion. Credwn eu bod iddynt gyfraniad gwerthfawr i hybu dysgu gydol oes ymysg ein disgyblion.

Oherwydd y nifer o ddisgyblion ni all yr ysgol dalu am yr ymweliadau addysgol felly byddwn yn gofyn am gyfraniad gwirfoddol gan y rhieni.

Ni fydd plentyn yn cael ei atal rhag mynd ar ymweliad addysgol oherwydd nad yw'n gallu talu. Er hynny mae'n rhaid i'r cyfraniadau gwirfoddol fod yn ddigonol i sicrhau i'r ymweliad ddigwydd.

Mae'n bwysig nodi bod deddfwriaeth y Llywodraeth yn datgan na ddylai ymweliad ddigwydd os nad yw pob plentyn yn gallu mynd oherwydd bod rhai yn methu talu. Os oes unrhyw riant yn cael trafferth gyda chost ymweliad yna dylid trafod y broblem gyda'r Pennaeth. Gellir talu am unrhyw ymweliadau preswyl mewn rhandaliadau a gellir gwneud trefniadau cyffelyb gydag amgylchiadau eraill os oes angen.

Mae cost unrhyw ymweliad yn cynnwys teithio, trafnidiaeth, mynediad ac yswiriant. Mae gwybodaeth am unrhyw ymweliad yn cael ei anfon i'r rhieni a bydd raid cwblhau'r ffurflen caniatâd.

Egwyddorion y Polisi

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi'r Awdurdod ar Godi tâl a pheidio codi tâl. Gellir cael copi cyflawn o'r ysgol.
Mae'r Awdurdod yn caniatáu codi tâl am y canlynol:

- Bwyd a llety ar ymweliadau preswyl sydd yn digwydd y tu allan i oriau ysgol yn bennaf;

- Hyfforddiant mewn chwarae offeryn cerddorol nad yw'n cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- Gweithgareddau sydd yn digwydd tu allan i oriau ysgol a ddim yn ymwneud a'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu addysg grefyddol;
- Cost popeth a dorrir ac eiddo ysgol a gollir neu a ddistrywir.
- Gellir gofyn am gyfraniad gwirfoddol at gost teithiau sydd yn digwydd yn bennaf o fewn oriau ysgol. Ni eithrir unrhyw ddisgybl oherwydd nad yw'n medru talu ond mae gan yr ysgol yr hawl i ohirio'r gweithgaredd os nad yw lefel y cyfraniadau'n ddigonol i gwrdd â'i gofynion cyllidebol.

Ni fydd codi tâl am:

- Mae'r polisi peidio â chodi tâl yn cynnwys bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau addysgol sydd yn digwydd o fewn oriau ysgol neu o fewn Rhaglen Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn canolfannau Addysg fel: Nant B H, Pentrellyncymer a Glan-llyn ond bydd y cynnig hwn i ddisgyblion sydd â'r hawl i hynny ar gyfer un daith bob blwyddyn addysgol.
- Y disgyblion sydd â hawl i gwtogiad yw'r rhai hynny y mae eu rhieni yn derbyn ategiad incwm, credyd teulu, lwfans seiliedig ar incwm i rai sy'n chwilio am waith ne lwfans gweithio i'r anabl. Mae hyn yn cwrdd â gofynion statudol minimol Deddf 1996.

CYFRANIADAU GWIRFODDOL:

1. Gellir gofyn am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni tuag at gost unrhyw weithgaredd ysgol.
2. Bydd unrhyw gais am gyfraniad gwirfoddol yn amlinellu:

* nad oes unrhyw rwymedigaeth i dalu
* y bydd disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal, hyd yn oed os nad oes cyfraniad wedi ei dderbyn
* y cyfraniad angenrheidiol gan bob disgybl i sicrhau bod y gweithgaredd yn cymryd lle
* goblygiadau canslo gweithgaredd os nad oes digon o gyfraniadau wedi eu derbyn

3. Os oedd cost gweithgaredd yn weddol sylweddol neu os oedd rhaid i'r ysgol dalu blaendal i sicrhau bod y gweithgaredd yn digwydd, gellir gofyn am flaendal gan rieni. Bydd hyn fel arfer yn 10% o gost y gweithgaredd. Byddai'r swm hwn yn cael ei ad-dalu i rieni pe bai'r gweithgaredd yn cael ei ganslo gan yr ysgol neu'r darparwr. Ni ellir cynnig ad-daliad am resymau eraill.